

# Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

## Trawsgrifiadau Tystiolaeth Fideo

Mae'r ddogfen hon yn darparu trawsgrifiadau llawn o'r dystiolaeth a roddwyd i ni ar ffurf fideo i lywio ein gwaith craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r [esboniad o'r dystiolaeth fideo](#).

Rhieni dros addysg Gymraeg (RhaG), Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gweithredol, Elin Maher:

Mae'n gyfnod cyffrous i addysg yng Nghymru gyda dyfodiad y Bil hwn. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth i gefnogi unrhyw ddiwygio yn gadarn a bod y prosesau yn y cwricwlwm yn cryfhau'r ddarpariaeth ac yn cydweddu â meysydd strategol eraill y Llywodraeth.

Ond pryderwn am adran 3.2, sy'n cynnwys y Saesneg fel rhan fandadol, am ddau reswm. Yn gyntaf, am na welsom unrhyw dystiolaeth i gefnogi cynnwys y Saesneg. Ac yn ail, mae'n amharu ar y broses bresennol o drochi plant yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar, gan greu sefyllfa lle y gallai ysgolion a darparwyr unigol weithredu yn erbyn polisi awdurdod lleol drwy'r weithred o ddatgymhwyso Saesneg, fel y gwelir yn adrannau 26 a 27.

Deallwn yr egwyddor o gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r Gymraeg gan eu bod yn cael eu diogelu o dan gyfreithiau eraill, fel nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg. Mae'r Saesneg yn iaith fwyafrifol yn ein cymunedau, ond rhaid cynllunio'n fwriadus ar gyfer y Gymraeg, a dyma'r cyfle.

Mae RhAG wedi cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau hyn a'u gweithredu. Bydd y cynlluniau nesaf yn gweithredu'n gyfochrog â'r cwricwlwm newydd. Un o egwyddorion sylfaenol y cynlluniau hyn yw pwysigrwydd dilyniant darpariaeth. Mae rheoliadau'r cynlluniau hyn mewn addysg, sydd wedi bod mewn grym ers Ionawr 2020,



wedi gosod yn glir ei bod yn ddisgwyliad i awdurdodau lleol gynllunio'n fwriadus o'r cyfnod cyn ysgol hyd at gyfnod ôl-16. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a gynhelir ac nas cynhelir, megis cylchoedd meithrin. Felly, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb pwysig dros bolisi awdurdod cyfan. Rhaid sicrhau bod y Bil yn cydweddu â'r cynlluniau hyn. Gofynnwn felly i ddileu'r Saesneg yn llwyr o adran 3.2 neu i ddileu'r angen i weithredu'r elfen o ddatgymhwyso drwy oedi cyflwyno'r Saesneg tan gyfnod allweddol 2 o leiaf.

British Heart Foundation Cymru, Pennaeth BHF Cymru, Adam Fletcher:

Mae BHF yn falch o weld yr ymrwymiad ym Mil y Cwricwlwm i iechyd a llesiant. Rydym hefyd yn falch o weld bod sgiliau cymorth cyntaf ac achub bywydau wedi eu hychwanegu at y canllawiau i ysgolion. Ond mae yna un broblem fawr o hyd, sef y loteri o ran p'un a fydd pobl ifanc yn dysgu sgiliau fel CPR yn yr ysgol uwchradd ai peidio. Maen nhw'n cael eu haddysgu mewn rhai ysgolion ond nid mewn rhai eraill. Dyna pam mae'r cyfraddau goroesi mor isel yng Nghymru, gyda llai nag un o bob 10 yn goroesi ar ôl ataliad y galon yn y gymuned. Gallwn ni ddatrys hyn. Drwy ddiwygio'r Bil a'r canllawiau, gallwn sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau sy'n achub bywydau yn y dyfodol.

Mae'r adnoddau dysgu ar gael am ddim ac yn ddwyieithog ar yr hwb. Mae'r dystiolaeth yn glir. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell bod pob person ifanc yn dysgu CPR yn yr ysgol. Mae gwledydd eraill wedi llwyddo i wneud hyn. Mae Lloegr a'r Alban wedi sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i ddysgu CPR yn yr ysgol oherwydd y dystiolaeth hon. Rhaid i ni beidio â cholli'r cyfle a sicrhau nad yw Cymru ar ei hôl hi. Os bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dysgu CPR yn yr ysgol, mae'n bosibl y gellid achub 200 o fywydau bob blwyddyn yng Nghymru. Gadewch i ni roi stop ar y loteri a sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle i ddysgu.

Cymdeithas yr Iaith, Cadeirydd Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith, Mabli Siriol:

Rydym ni'n pryderu'n fawr am gynnig y Llywodraeth i wneud Saesneg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ar wyneb y Bil, gan y bydd disgwyl i bob ysgol ei dysgu o'r oedran cynharaf oni bai eu bod nhw'n optio mas. Bydd hyn yn gwreiddio'r syniad mai rhywbeth ymylol neu anarferol yw addysg Gymraeg ac mai Saesneg yw'r norm fel cyfrwng addysg, sef y gwrthwyneb i ymrwymiad y Llywodraeth ei hun i symud tuag at un continwmm o ddysgu'r Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr. Mae'n dangos diffyg dealltwriaeth o ddulliau trochi, sy'n allweddol i lwyddiant addysg Gymraeg, ac mae'n peryglu eu parhad, achos bydd modd i

gyrff llywodraethu unigol newid cyfrwng iaith ysgol, ac mae hynny'n tanseilio cynllunio strategol yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym ni hefyd yn gwybod nad oes angen deddfwriaeth i sicrhau bod plant yn rhugl yn Saesneg. Maen nhw'n dysgu Saesneg trwy Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Yn bennaf, does dim tystiolaeth addysgol dros gynnig y Llywodraeth. Rydym ni hefyd yn gwybod na wnaeth yr un corff nac arbenigwr argymell y cynnig yma yn ystod yr ymgynghoriad. Ar y llaw arall, mae dros 400 o ddysgwyr wedi llofnodi llythyr agored yn galw ar y Llywodraeth i newid y cynlluniau.

Bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar addysg Gymraeg ar lawr gwlad ac yn tanseilio'r nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr. Felly, rydym ni'n gofyn i'r pwyllgor alw ar y Llywodraeth i newid geiriad y Bil a'r cynlluniau ffôl yma.

Senedd Ieuenctid Cymru - Yr Pwyllgor Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Ffion Griffith:

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae iechyd meddwl wedi dod yn ganolog i'n cymdeithas wrth i ni weld ei bwysigrwydd a'i effaith ar bob agwedd o'n bywydau. Mae'n arbennig o wir ymysg pobl ifanc, wrth i bwysau'r ysgol a'r cyfryngau cymdeithasol arwain at ofid a straen. Mae Pwyllgor Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Senedd Ieuenctid Cymru yn teimlo'n gryf bod addysgu yn allweddol wrth godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o iechyd meddwl, a bod digon o gyfleoedd yn y cwricwlwm newydd i wneud hyn.

Cred Senedd Ieuenctid Cymru fod angen gwneud mwy i wella hyder pobl ifanc, yn ogystal â'u mynediad at wybodaeth. Mae'n allweddol bod gan bobl ifanc mynediad at wybodaeth gywir a dilys, yn ogystal â digon o gyfleoedd i drafod iechyd meddwl yn yr ysgol, sy'n gallu helpu i waredu'r stigma, sef un o'r prif resymau pam nad yw pobl ifanc yn gyffyrddus i rannu eu problemau. Mae'n allweddol dechrau'r trafodaethau yma'n ifanc, gan ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc o iechyd meddwl ar y cyd ag iechyd corfforol.

Rydym yn credu bod llawer o gyfleoedd i wneud cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a phynciau eraill, er mwyn normaleiddio'r syniad bod iechyd meddwl yn berthnasol i bawb, ac eto gwaredu'r stigma. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen sicrhau bod pobl ifanc yn cael cefnogaeth a bod cysondeb dros Gymru gyfan. Ni ddylai lleoliad daearyddol person ifanc ei rwystro rhag cael y wybodaeth neu'r cymorth sydd ei angen arno. Rydym yn cydnabod, serch hynny, fod angen cymorth ar athrawon i allu ymgorffori iechyd meddwl yn y

cwricwlwm ac rydym yn credu bod angen cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer athrawon. Gall iechyd meddwl effeithio ar bob rhan o'n bywydau ac mae'n allweddol bod addysg ac ymwybyddiaeth yn chwarae rhan wrth helpu pobl ifanc i ofalu am eu hiechyd meddwl cyn iddo ddod yn broblem.

Dyfodol i'r Iaith, Prif Weithredwr, Ruth Richards:

Diolch o galon ar ran Dyfodol i'r Iaith am y cyfle i rannu'n sylwadau â'r pwyllgor. Yn gryno, credwn fod Bil y Cwricwlwm yn tanseilio'r Gymraeg, ac yn benodol addysg drochi, sef y dull mwyaf llwyddiannus o sicrhau rhuglder yn y Gymraeg. Nodir yn y Bil bod hawl gan gyrff llywodraethu ysgolion i optio allan o addysg Saesneg i blant hyd at saith oed. Addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yw'r norm felly, ac mae addysg drochi yn eithriad. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes naill ai'n darparu addysg drochi ddiofyn yn y Gymraeg neu'n symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Dylai'r Bil gydnabod mai i'r cyfeiriad hwn y mae angen i ni symud bellach. Mae angen cynnwys cymal yn y Bil sy'n gwneud addysg drochi Gymraeg yn norm. Ac mewn ysgolion lle nad yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd, eu bod yn rhan o broses drawsnewidiol sy'n symud i'r cyfeiriad hwnnw. Yn ôl y Bil, mae'n bosibl i ysgolion unigol dynnu'n groes â pholisi iaith yr awdurdod lleol, a thrwy hynny droi'r cloc ar flynyddoedd o waith da sydd wedi'i gyflawni.

Mae prif fudiadau iaith Cymru yn unol yn ein gwrthwynebiad. Byddwn yn argymhell yn gryf fod y pwyllgor yn gwrthod y syniad cyfeiliornus mai fel eithriad y cyflwynir y cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn y modd mwyaf effeithiol.

MIND Cymru, Pennaeth Polisi a Dylanwadu, Simon Jones:

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle unigryw i roi iechyd meddwl ein pobl ifanc yn ganolog i'w dysg a'u profiad yn yr ysgol. Rydym yn cytuno'n llwyr â nod Llywodraeth Cymru i ddatblygu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol ein pobl ifanc.

Mae'r profiad diweddar yn ystod y pandemig wedi dangos yn glir mor bwysig yw ysgolion wrth hybu a gwarchod iechyd meddwl pobl ifanc ynghyd â bod yn gyfle i nodi problemau yn gynnar a sicrhau bod cymorth ar gael. Mae'r profiad yma a'r trafodaethau o ran effaith y pandemig yn fwy cyffredinol ar iechyd meddwl pobl ifanc yn creu cyd-destun lle mae sicrhau iechyd meddwl da yn ganolog i brofiad pob disgybl fel rhywbeth sydd bellach yn bwysicach nag erioed.

Er bod rhai camau positif wedi eu cymryd, rydym yn dal i gredu y dylai iechyd meddwl fod yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm, yn yr un modd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Byddai hyn yn adlewyrchu cred y bobl ifanc yr ydym wedi siarad â nhw nad oes digon o amser yn yr ysgol i drafod materion iechyd meddwl. Pe bai hyn yn digwydd a'i gynnig ar draws y cwricwlwm, byddai hyn yn galluogi ac yn annog gweithwyr addysg i feddwl yn greadigol pryd y byddai'n briodol dechrau sgwrs am iechyd meddwl. Byddai hyn nid yn unig yn cynnig mwy o amser, ond byddai'n normaleiddio sgysiau am iechyd meddwl fel rhywbeth a all ddigwydd yn briodol ac yn ddiogel ar wahanol bwyntiau yn yr ysgol.

Byddai hyn yn cyd-fynd ag ymgyrchoedd fel Amser i Newid Cymru lle caiff annog sgysiau am iechyd meddwl ei bwysleisio fel rhan allweddol o daclo stigma. Peth positif iawn yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad cryf i wneud iechyd meddwl yn un o'i meysydd blaenoriaeth yn ei Rhaglen Lywodraethu. Byddai gwneud y newid hwn i'r Bil yn gwireddu'r ymrwymiad hwnnw o fewn polisi a deddfwriaeth addysg. Diolch.

Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru, Prif Weithredwr, Rocio Cifuentes:

Diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig. Daw'r cynnig hwn a'r adolygiad arfaethedig o'r cwricwlwm i Gymru ar adeg amserol a phwysig iawn yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae pawb yng Nghymru yn wynebu heriau anferth ar hyn o bryd, gyda'r coronafeirws ac ymgyrch Black Lives Matter, ac ni fu erioed mor bwysig i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wynebu'r heriau hyn. Am y rhesymau hynny, rydym ni'n croesawu'r Bil arfaethedig hwn a'r diwygiadau helaeth a gynigir.

Rydym ni'n croesawu newid y drefn i roi mwy o bwerau yn nwylo athrawon ac ysgolion. Ond rhaid pwysu hynny yn erbyn yr angen i wella amrywiaeth y gweithlu addysgu yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae llai nag un y cant o athrawon yn dod o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â dros 10 y cant o'r boblogaeth oedran ysgol sy'n dod o gefndiroedd BAME. Felly, mae angen taro cydbwysedd os ydym am sicrhau bod gan bobl ifanc a disgyblion fodelau rôl sy'n adlewyrchu'r byd yn deg.

Rydym ni'n teimlo hefyd fod angen mwy o sgiliau, adnoddau cymorth a hyfforddiant ar athrawon i wireddu gweledigaeth y cwricwlwm newydd hwn. Yn ôl pob golwg, nid oes fawr ddim pwyslais yn y fframwaith presennol ar sut y caiff

athrawon eu cefnogi ac o ble y daw'r adnoddau ar gyfer y weledigaeth hon. Codwyd y pryderon hyn fel rhan o'r sgysiau a gafwyd rhwng y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, sef yr elusen rwy'n bennaeth arni, â nifer fawr o bobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ar draws Cymru. Maen nhw'n croesawu'r Bil yn fawr ond maen nhw'n pryderu am amrywiaeth y gweithlu ac o ran sicrhau bod gan athrawon a'r gweithlu y sgiliau i wireddu'r weledigaeth hon er mwyn sicrhau y gall pawb ddysgu ac elwa yn y ffordd orau yn y dyfodol. Diolch.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Pennaeth Cymru, Parch Ruth Coombs:

Er bod yr asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn nodi bod y cwricwlwm newydd yn rhoi ystyriaeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, roedd yn syndod nad yw'r Bil yn cynnwys hynny ar ei wyneb, yn annhebyg i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Rydym ni'n credu ei bod yn bwysig gosod yr hawl yma ar wyneb y Bil, felly ein hargymhelliad ni fyddai i hynny gael ei wneud yn ystod cyfnod y pwyllgor. Gwyddem hefyd fod addysg hawliau dynol yn hollbwysig ac rydym yn argymhell y dylid ychwanegu addysg hawliau dynol i'r gofyniad goblygiadau cyffredinol a nodir yng nghymal 30 o'r Bil. Golyga hynny addysg am hawliau dynol, drwy hawliau dynol ac ar gyfer hawliau dynol i roi dull holistaidd. Credwn hefyd os am sicrhau bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer disgyblion neu ddysgwyr o bob oed, pob gallu a phob addasrwydd fod angen rhoi sylw arbennig i'r gwahanol nodweddion.

Gwahanol blant â gwahanol nodweddion gwarchoddedig. Ac wrth gwrs mae gan rai o'r plant hynny groesdoriad o nodweddion. Rhaid rhoi ystyriaeth i hyn oherwydd mae rhai dysgwyr yn cael y cwricwlwm yn anoddach. Mae plant anabl, rhai plant o leiafrifoedd ethnig yn cael rhannau o'r cwricwlwm yn anodd iawn, felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cefnogi i roi'r un cyfle iddynt â'u cyd-ddisgyblion.

Gwyddem hefyd fod poblogaeth ysgolion o ran staff a disgyblion yn wahanol iawn, a byddem yn dymuno gweld amrywiaeth y staff yn cyd-fynd ag amrywiaeth y plant sy'n mynd i'r ysgol. Fel rwyf wedi ei ddweud o'r blaen, mae asesiadau o gydraddoldeb yn hollbwysig, yn yr un modd ag asesiadau o'r effaith ar hawliau plant. Felly ym mhob cam o'r broses, boed yn bartneriaeth rhwng pennaeth a llywodraethwyr, neu'n awdurdod lleol yn gweithio ar y cwricwlwm newydd, rhaid rhoi ystyriaeth i'r ddau ofyniad hwnnw i sicrhau cymaint o hygyrchedd â phosibl i bob dysgwr sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Rydym yn falch iawn ein bod yn gallu cyfrannu at hynt y Bil yma. Credwn ei fod yn foment allweddol yn natblygiad y Cwricwlwm i Gymru, ac mae angen iddo fod yn addas i bobl ifanc heddiw a phobl ifanc y dyfodol. Diolch.

Senedd Ieuencid Cymru - Yr Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, Aelod Senedd Ieuencid Cymru, Gwion Rhisiart:

Helo, Gwion Rhisiart ydw i a fi yw Aelod Senedd Ieuencid Cymru dros Gaerdydd Canolog. Rwyf hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm, a byddaf yn cynrychioli'r pwyllgor wrth roi'r dystiolaeth hon. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar sgiliau bywyd yn y cwricwlwm ym mis Tachwedd 2019, ar ôl ymgynghori â phobl ifanc drwy arolygon a grwpiau trafod ledled Cymru.

Tynnodd yr adroddiad sylw at anghysondebau yn y cwricwlwm presennol a oedd yn peri pryder i'r pwyllgor, gyda 84 y cant yn cael gwersi am ddiogelwch ar y rhyngwrdd ond dim ond 10 y cant yn cael gwersi am addysg wleidyddol. Mae'r canran isel o bobl ifanc sy'n cael gwersi am wleidyddiaeth yn peri pryder i ni, o gofio y bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael pleidleisio am y tro cyntaf yn etholiad nesaf y Senedd yn 2021. Rydym ni'n gwneud tro gwael â'n cenhedlaeth drwy roi'r hawl iddynt bleidleisio

heb eu haddysgu am beth mae hynny'n ei olygu. Daw hynny â ni i'r cwricwlwm newydd arfaethedig yn y Bil. Pryder mwyaf y pwyllgor oedd y gallai arwain at brofiadau dysgu anghyson i bobl ifanc ledled Cymru, gan mai ysgolion ac awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar nifer fawr o agweddau ar y cwricwlwm.

At hynny, gallai diffyg cyllid arwain at fwy o wahaniaethau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Er enghraifft, roedd fy ysgol i, Ysgol Bro Edern yng Nghaerdydd, yn ddigon ffodus i sicrhau'r cyllid i roi iPad i bob disgybl fynd ag ef adref gyda nhw ar gyfer eu gwaith ysgol bob dydd. Ond bydd llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol yn methu â sicrhau'r fath gyllid, ac ni fydd disgyblion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn cael yr un profiadau mewn meysydd fel llythrennedd digidol, a gall hynny arwain at gostau sylweddol.

I atal hyn, dylai'r cwricwlwm newydd gyflwyno mwy o arweiniad a phynciau hanfodol, gan roi hyblygrwydd ar yr un pryd i ysgolion gynllunio cwricwlwm sy'n addas ar gyfer eu disgyblion. Ni allwn adael i'r cwricwlwm newydd i Gymru lithro yn ôl i'r cwricwlwm anaddas presennol. Fel arall, byddwn ni'n methu â chyflawni ein dyletswydd fel cynrychiolwyr pobl ifanc Cymru.